Polisi Trin a Rheoli Glaswelltir Blodau Gwyllt

Mae'r ddogfen yma'n nodi'r sefyllfa o ran polisi trin a rheoli lleiniau glas a mannau agored mewn perthynas â bioamrywiaeth yn Rhondda Cynon Taf. Yn ffodus iawn i ni, mae cyfoeth o flodau gwyllt cynhenid i'w cael ar leiniau glas priffyrdd a thiroedd ysgolion, ac ym mannau agored a pharciau Rhondda Cynon Taf ac mae'r rhain oll yn cefnogi cynefin glaswelltir 'â blaenoriaeth'. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae colli cynefinoedd glaswelltir blodau gwyllt a'r pryfed peillio maen nhw'n eu cynnal wedi dod yn fater o bryder sylweddol i'r cyhoedd. Mae strategaethau i adfer bioamrywiaeth glaswelltir wedi'u llunio ac mae glaswelltir a lleiniau glas cyhoeddus yn cael eu hystyried fwyfwy yn fannau pwysig sy'n cynnal cynefinoedd sy'n llawn blodau gwyllt. Pe bai'r adnodd yma'n cael ei drin a'i reoli'n ofalus, byddai modd adfer bioamrywiaeth glaswelltiroedd. Gan fod yr ardaloedd yma yng ngolwg y cyhoedd, maen nhw hefyd yn cynnig cyfleoedd ardderchog i godi ymwybyddiaeth, cael cymorth gan y gymuned leol, yn ogystal â'u hannog i weithredu dros y mater. Yn rhan o'r gwaith trin a rheoli glaswelltir blodau gwyllt a lleiniau glas yma, byddai'n rhaid i adrannau weithio ar y cyd i gefnogi cynllun 'Gweithredu Dros Natur', sef Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Rhondda Cynon Taf a Dyletswydd o ran Bioamrywiaeth newydd y Cyngor.

Mae'n bwysig cydnabod fod trin a rheoli blodau gwyllt ddim yn golygu cefnu ar dir. Mae angen trin a rheoli blodau gwyllt er mwyn iddyn nhw ffynnu. Mae glaswelltir blodau gwyllt yn cael eu cynnal yn draddodiadol naill ai drwy eu torri neu eu pori. Yn syml iawn, mae rheoli bioamrywiaeth yn golygu bod angen peidio â thorri gwair yn y gwanwyn a'r haf er mwyn i flodau 'flodeuo a hadu'. Dim ond ar ôl hynny maen nhw'n cael eu torri ac mae'r holl 'doriadau' yn cael eu casglu. Mae'r broses o gasglu'r gwair wedi'i dorri'n hanfodol. Wrth wneud hyn, mae'n cael gwared ar faetholion o'r pridd. Effaith hyn yw lleihau faint o wair sy'n tyfu a chynyddu amrywiaeth a nifer y blodau gwyllt. Mae casglu'r gwair hefyd yn sicrhau bod dim modd i wair sydd wedi marw droi'n domwellt. Gall hyn fygu'r blodau gwyllt oddi tano. Ar laswelltir lle dydy deunydd wedi'i dorri ddim yn cael ei gasglu, fydd blodau gwyllt ddim yn ffynnu. Yn wir, mae'r newidiadau o ran torri glaswelltir unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, gan adael y toriadau yno, yn waeth mewn perthynas ag amrywiaeth blodau gwyllt o'i gymharu â thorri gwair rheolaidd arferol. Unwaith eto, mae'n bwysig pwysleisio fod glaswelltir ddim yn cael ei adael wrth ei drin a'i reoli mewn perthynas â blodau gwyllt.

Ar ôl casglu'r deunydd, mae modd ei gompostio ar y safle mewn 'pentyrrau cynefin' arbennig (sy'n gweithio fel ardaloedd gaeafgysgu ar gyfer ymlusgiaid) neu ei symud i'w gompostio mewn mannau eraill. Mae cael gwared ar y toriadau yn hanfodol felly.

Dyma ran anoddaf trin a rheoli blodau gwyllt ac mae ymhlith y cwestiynau cyntaf y mae angen ei ateb wrth newid y drefn trin a rheoli i un sy'n ffafrio blodau gwyllt. Yn y rhan fwyaf o achosion, peiriant fydd yn torri a chasglu'r gwair. Serch hynny, ar safleoedd bach mae modd gofyn i'r gymuned leol godi gwair wedi'i dorri trwy'r fenter 'Grab a Rake' gan roi'r gwair mewn bagiau gwyrdd i'w casglu maes o law. Ar safleoedd mwy o faint, pan fydd y cyfle'n codi, mae pori er lles cadwraethol yn ffordd effeithiol iawn o drin a rheoli blodau gwyllt (Mae hyn digwydd ar nifer o safleoedd Cyngor RhCT).

Ar lethrau serth, does dim modd i beiriannau gasglu gwair wedi'i dorri, ond mae disgyrchiant yn helpu. Yma, mae'r gwair wedi'i dorri'n symud i lawr i waelod y llethr, gan adael o leiaf y rhannau uchaf yn llawn blodau gwyllt. Mewn achosion fel hyn, lle mae modd i'r gymuned wirfoddoli, gall cribinio â llaw helpu'r broses ar waelod y llethr.

Polisi trin a rheoli gwair a lleiniau glas mewn perthynas â bioamrywiaeth RhCT yw **'cynyddu arwynebedd a maint cynefin glaswelltir sy'n gyfoeth o flodau gwyllt yn y Fwrdeistref Sirol i gefnogi Dyletswydd o ran Bioamrywiaeth y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol'.**

Yr egwyddorion allweddol sy'n cefnogi'r polisi yma yw:

1. Nodi safleoedd lle does dim cyfyngiadau iechyd a diogelwch wrth newid sut mae glaswelltir yn cael ei drin a'i reoli.
2. Sicrhau bod newidiadau o ran trin a rheoli gwair a lleiniau glas yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan bobl leol.
3. Dewis safleoedd sydd â'r potensial mwyaf i wella bioamrywiaeth. Wrth fesur potensial, mae'r canlynol yn cael eu hystyried:
   a) Cyfansoddiad presennol y blodau gwyllt
   b) Safleoedd mwy o faint yn well na rhai bach
   c) Safleoedd sy'n helpu i gysylltu cynefinoedd â'i gilydd yn rhan o'r dirwedd leol
   d) Safleoedd sy'n helpu i 'lenwi' bylchau yn y rhwydwaith o safleoedd ledled y Fwrdeistref Sirol
4. Dewis safleoedd lle mae mynediad priodol i gerbydau ar gael.
5. Sicrhau bod gyda safleoedd y gallu i gompostio 'pentyrrau cynefin'.
6. Lle bo'n briodol, sefydlu safleoedd pori er budd cadwraeth ar safleoedd mawr.
7. Integreiddio'r gwaith yma gyda'r gwaith trin a rheoli ar gyfer Canclwn Siapan, Jac y Neidiwr a phlanhigion ymledol eraill.
8. Datblygu dehongliad o'r safle ar raddfa a ffurf sy'n briodol i'r safle a'r lleoliad, a chydlynu hyn drwy wefan y Cyngor, gan ddefnyddio arwyddlun 'Melyn y rhafnwydd' ar gyfer logo'r prosiect.
9. Lle y bo'n briodol, cysylltu cymunedau/grwpiau â diddordeb lleol â rheolwyr safleoedd er mwyn cynnal hyfforddiant codi ymwybyddiaeth, cofnodi blodau gwyllt/pryfed a hyrwyddo menter gymunedol 'Grab A Rake'.
10. Ar safleoedd 'torri a chasglu', bydd lleiniau gweledegd a llwybrau mynediad yn parhau i gael eu torri'n fwy rheolaidd.

11. Mewn rhai achosion, does dim angen torri a chasglu'r holl wair blodau gwyllt bob blwyddyn. Gall torri bob yn eilflwydd sicrhau gwell cynefin i bryfed sy'n peillio'n a bod rhai hadau blodau gwyllt ar gael i adar sy'n bwyta hadau yn y gaeaf.
12. Gall hyd yn oed glaswelltir sydd ag ychydig o flodau gwyllt ar y dechrau ddod yn fwy amrywiol yn gyflym drwy drin a rheoli bioamrywiaeth. Serch hynny, yn yr achosion yma, mae modd cyflymu'r gwelliannau o ran blodau trwy blannu bylbiau'r gwanwyn. Bydd y rhain yn ymateb ar unwaith o'u trin a'u rheoli o'r newydd (gan ddefnyddio'r dull 'dôl o gaeau gwair') a bydd yn sicrhau bod modd i blanhigion ffotosyntheseiddio ar ôl blodeuo a chreu bylbiau cryf i'w blodeuo y gwanwyn nesaf.
13. Mapio, cofnodi ac adrodd ar gynnydd drwy'r Ddyletswydd ar Fioamrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol.